

**Cofnodion Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa a gynhaliwyd
ddydd Iau 23 Ionawr 2014 yn Ystafelloedd Eleth ac Eilian**

Yn Bresennol:

Mr Stuart Law	Cyfarwyddwr Safle Magnox Wylfa
Mrs Karin White	Ysgrifenyddiaeth Grŵp Rhanddeiliaid Safle Magnox
Michelle Humphreys	Magnox
Mr Billy Valley	Magnox
Mr Richard Cowell	Magnox
Mr Mark Thornton	Rheolwr Gwastraff, Magnox
Mrs Lowri Joyce	Magnox
Mr R Foxhall	Pŵer Niwclear Horizon
Mr M Saunderson	Cynrychiolydd o Gydgyngor Safle Wylfa
Dr T Davenport	Arolygiaeth Safleoedd (Swyddfa Rheoleiddio Niwclear), Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, NSD
R Howells	UK Nuclear Restoration
Mr M O'Hara	Aelod o Is-Grŵp Gwastraff y Grŵp Rhanddeiliaid Safle
Mr Tim Poole	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
Mr J Phillips	Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Chysylltiadau Rhanddeiliaid yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear
Y Cynghorydd A Rowlands	Cyngor Sir Ynys Môn – Ward Seiriol
Y Cynghorydd K P Hughes	Cyngor Sir Ynys Môn – Ward Talybolion
Y Cynghorydd LI M Huws	Cyngor Sir Ynys Môn – Ward Talybolion
Y Cynghorydd Aled M Jones	Cyngor Sir Ynys Môn – Ward Twrcelyn (Cadeirydd y Grŵp Rhanddeiliaid Safle)
Y Cynghorydd Richard Owain Jones	Cyngor Sir Ynys Môn – Ward Twrcelyn
Y Cynghorydd William T Hughes	Cyngor Sir Ynys Môn – Ward Twrcelyn
Y Cynghorydd J Dobson	Cyngor Cymuned Llanbadrig
Y Cynghorydd J H Jones	Cyngor Cymuned Mechell
Y Cynghorydd G W Roberts	Cyngor Tref Amlwch (Is Gadeirydd y Grŵp Rhanddeiliaid Safle)
Mr H Jordan	Ffederasiwn Busnesau Bach, Garej Glan Rhos
Mr Thomas Conway	Cymdeithas Gweithwyr wedi Ymddeol Wylfa
Mrs Jean Jones	Ysgol Syr Thomas Jones
Mr E T Morris	Dirprwy Bennaeth Ysgol Syr Thomas Jones
Mr R Kemp	Tenet Consultants
Mrs J Honey	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Mr Roger Dobson	Aelod o'r Cyhoedd
Mr Gordon Warren	Pwyllgor Preswylwyr Porth Llechog
Fraser Gerrard Williams	Aelod o'r Cyhoedd
Mrs Ann Llwyd	Cymen - Cyfieithu ar y Pryd
Miss Elen Williams	Cymen - Cadw Cofnodion

Ymddiheuriadau

Mr Albert Owen	Aelod Seneddol Ynys Môn
Mr Rhun ap Iorwerth	Aelod Cynulliad
Mr Richard Parry Jones	Prif Weithredwr Dros Dro - Cyngor Sir Ynys Môn
Mr Dylan Williams	Pennaeth Datblygu Economaidd - Cyngor Sir Ynys Môn
Y Cynghorydd John Griffith	Cyngor Sir Ynys Môn – Ward Talybolion

Y Cyngorydd Val Roberts	Cyngor Tref Amlwch
Mr Dave Clarke	Diogelwch Niwclear Sifil y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear
Dr John Idris Jones	Rheolwr Prosiect Ynys Ynni a Safle Magnox Wylfa
Y Cyngorydd Huw Morris Jones	Cyngor Cymuned Cylch-y-Garn
Mr Keith Williams	Pennaeth yr Uned Cydnerthu, Ymddiriedolaeth GIG Ambiwllans Cymru
Mr Steve Roberts	Preswlydd Lleol
Mr A Hall	Swyddog Cynllunio Argyfwng, Dŵr Cymru
Mr Peter Harrup	Yr Awdurdod Datgomiynu Niwclear
P Kennedy	Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
Mrs S Postans	Rheolwr Cyfathrebu Magnox
Mr Alan Smith	Pŵer Niwclear Horizon
Mr A K Williams	Cynllunio Argyfwng, Cyngor Sir Ynys Môn
Heidi Williams	Undeb Amaethwyr Cymru

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod ac ar ôl dymuno blwyddyn newydd lewyrchus a hapus i'r aelodau, derbyniodd yr ymddiheuriadau uchod. Estynnodd groeso arbennig i Jon Phillips (Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Chysylltiadau Rhanddeiliaid yr Awdurdod Datgomiynu Niwclear), Richard Howells (UK Nuclear Restoration), Elfed Morris (Dirprwy Bennaeth, Ysgol Syr Thomas Jones), a Richard Kemp (Rheolwr Datblygu Busnes, Tenet Consultants).

Cyhoeddodd y Cadeirydd y byddai Alan Williams yn ymddeol o Gyngor Sir Ynys Môn yn fuan ac y byddai Eleri Salisbury, y Swyddog Argyfyngau Sifil, yn ysgwyddo ei gyfrifoldebau. Hefyd, byddai Paul Kennedy, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Llundain, yn ymddeol y mis hwn.

2. Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Medi 2013

Cynigiwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir gan y Cyngorydd Williams Hughes ac eiliwyd hynny gan y Cyngorydd Alwyn Rowlands.

3. Materion yn codi o'r Cofnodion blaenorol

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

4. Adroddiad Cyfarwyddwr y Safle

Er bod yr allbwn wedi cael ei gyfyngu gan ostyngiad bychan mewn pŵer tua diwedd y flwyddyn, ar ôl gwaith atgyweirio, roedd Adweithydd 1 yn gweithio i'w bŵer llawn unwaith eto ac roedd 2013 wedi dod i ben yn rhagorol gyda'r flwyddyn hyd yma wedi cynhyrchu 2.81TWh.

Roedd gwasanaeth Adweithydd 1 wedi'i atal ar 6 Ionawr, i ddechrau ar gyfnod segur olaf un adweithydd Magnox ar safle gweithredu olaf Magnox. Mae disgwyl i Adweithydd 1 fod yn weithredol eto o fewn 100 diwrnod. O ganlyniad i'r gwaith hwn, ar hyn o bryd mae llawer mwy o weithgareddau'n digwydd ar y safle a llawer mwy o bobl hefyd. I dynnu sylw at hyn, nodwyd bod 951 o unigolion wedi bod ar y safle y dydd Gwener blaenorol.

Roedd ymarfer Arddangosfa Niwclear Lefel 1 y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear, ar y cyd â'r Cwnstabiliaeth Niwclear Sifil, wedi'i gynnal fis Tachwedd ac roedd wedi bod yn llwyddiant. Cytunwyd ar sefyllfa gymharol gymhleth â'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear ac, yn gyffredinol, roedd y safle wedi ymateb yn dda i'r heriau. Aseswyd yr ymarfer gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear fel arddangosfa ddigonol.

Wrth i ddiwedd y cynhyrchu nesáu, pwysleisiodd S Law mai'r amcan oedd sicrhau nad oes newid mewn safon o ran diogelwch ac ymddygiad a bod y safle'n gorffen cynhyrchu mewn gwell cyflwr. Un o feysydd ffocws y safle fydd 'cyflawni gwell safle yfory na heddiw'.

Am gyfnod byr, nid oedd dau dyrbin nwy wedi bod ar gael, ac felly roedd y safle a'r Adweithyddion mewn Cyflwr Cynnal a Chadw Brys, ond dim ond am dri munud y parodd hyn.

Tua diwedd yr haf, cafwyd pump o anafiadau i ddwylo, pedwar yn Wylfa ac un ym Maentwrog. Nid oedd unrhyw un o'r anafiadau hyn yn sylweddol ond roeddent i gyd yn cynnwys triniaeth yn yr ysbyty a phwythau. Ar ôl y digwyddiadau hyn, mae'r safle wedi bod yn pwysleisio pwysigrwydd parhaus diogelwch ar y safle, ac yn atgoffa pobl am ddiogelwch y dwylo.

Roedd gwaith gyda phobl ifanc yr ardal wedi cael ei gynnal, gydag ymweliadau ysgolion ac ymweliadau cysylltiedig â gwyddoniaeth yn y ganolfan wybodaeth, a dechrau mis Tachwedd roedd Wylfa wedi croesawu grŵp o beirianwyr o Orsaf Pŵer Niwclear Dukovany yn y Weriniaeth Tsiec, a oedd wedi cael cyflwyniad am y safle ac am gynllun unigryw adweithyddion Magnox.

Roedd sawl digwyddiad elusennol wedi'i gynnal. Roedd cinio a raffl Nadolig y safle wedi bod yn llwyddiant mawr gyda'r elw'n codi £3,016 ar gyfer y 21 o elusennau sydd gan Wylfa, a digwyddiad 'Gwener Pinc', pryd rhoddwyd cyfle i unigolion wisgo pinc i gefnogi Breast Cancer UK.

5. Adroddiad Cadeirydd y Grŵp Rhanddeiliaid Safle

Cyfeiriodd y Cadeirydd y grŵp at ei adroddiad ysgrifenedig a oedd yn amlinellu'r dyletswyddau a'r gweithgareddau yr oedd wedi ymgymryd â hwy ers y cyfarfod diwethaf.

Ar 21 a 22 Hydref, roedd wedi mynychu cyfarfod y Grŵp Rhanddeiliaid Cenedlaethol a oedd yn cael ei gynnal am y tro cyntaf yn y De Ddwyrain ac yn cynnwys ymweliad â safle Bradwell Magnox. Dymunai ddiolch i'r ADN am drefnu digwyddiad mor ddiddorol. Crybwyllodd bod 900 o gontractwyr yn gweithio yn Bradwell ar hyn o bryd, ac ymhen dwy flynedd wrth i'r safle gyrraedd ei gam gofal a chynnal a chadw, bydd yn wag.

Ar 12 Rhagfyr, roedd wedi cyfarfod Neil Baldwin, Cyfarwyddwr Rheoli Magnox, a Thîm Gweithredol Magnox yn Llundain am ddiweddariadau a briffiau, yn enwedig mewn perthynas â'r Broses Gystadlu i benodi Rhiant Sefydliad i weithredu safleoedd Magnox ac RSRL o 1 Ebrill ymlaen am 7 mlynedd, gyda photensial i ymestyn y contract am 7 mlynedd arall.

Dywedodd y Cadeirydd ac S Law mai'r cyfnod segur hwn yn Wylfa fydd y cyfnod segur olaf ar safle olaf Magnox – yr olaf o'r fflyd.

Cwestiynau

Holodd y Cynghorydd Jac Jones ymhellach am weithdy'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd yr oedd y Cadeirydd wedi'i fynychu yn Venue Cymru ar 19 Tachwedd, a gynhaliwyd er mwyn edrych ar gynigion y Llywodraeth ar gyfer proses leoli ddiwygiedig ar gyfer Cyfleuster Gwaredu Daearegol ar gyfer gwastraff ymbelydrol gweithgarwch uwch. Roedd yn dymuno cael gwybod a oedd persbectif Wylfa wedi'i gyflwyno. Atebodd y Cadeirydd drwy ddweud nad oedd wedi mynegi persbectif.

Gofynnodd y Cynghorydd Gareth Winston Roberts am ragor o wybodaeth am y briff gyda Dr John Idris Jones o ystyried bod hyn ledled Cymru. Atebodd y Cadeirydd drwy ddweud eu bod wedi trafod materion a datblygiadau perthnasol i Magnox ac Ynys Ynni. Pwysleisiodd y

Cynghorydd Gareth Winston Roberts ei bod yn bwysig i'r rhan hon o'r ynys (y gogledd) gael sylw a chytunai'r Cadeirydd bod y rhan hon o'r ynys angen cael cyfleoedd yn sicr.

6. Diweddariad gan Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear

Cyflwynodd y Cadeirydd Jon Phillips, Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Chysylltiadau Rhanddeiliaid yr ADN, a oedd wedi teithio o Lundain i fod yn y cyfarfod.

Mynegodd Mr Jon Phillips ei falchder o fod yn y cyfarfod, yn ei rôl fel Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Chysylltiadau Rhanddeiliaid, wedi bod gyda'r ADN ers 2005. Eglurodd mai ei waith ef yw sicrhau bod yr ADN a'r safleoedd yn ymgysylltu'n briodol â rhanddeiliaid a bod y trefniant yn gweithio'n effeithiol, ond roedd bob amser yn fwy na pharod i dderbyn adborth. Eglurodd ei fod yn gyfrifol am faterion Economaidd-Gymdeithasol ac atgoffodd yr aelodau bod rhaglen barhaus o fuddsoddiad yng Ngogledd Cymru. Ychwanegodd bod cadeirydd y Grŵp Rhanddeiliaid Safle yn eiriolwr angerddol sy'n sicrhau bod ardal Gogledd Orllewin Cymru'n cael ei chynnwys mewn unrhyw fuddsoddiad economaidd-gymdeithasol.

Roedd eisiau tynnu sylw at bedwar mater sydd ar frig blaenoriaethau'r ADN ar hyn o bryd ac roedd yn gobeithio y byddai diweddariadau'r ADN sy'n cael eu dosbarthu i aelodau'n cael eu pennu ar y lefel briodol.

Y cyntaf o'r rhain yw Sellafield. Mae'r ADN yn derbyn £3 biliwn y flwyddyn gan y llywodraeth ar gyfer datgomisiynu, ac mae £1.8 biliwn o'r swm yma'n mynd i Sellafield. Mae'n denu'r holl gyllid, craffu ac ati sy'n mynd â llawer o amser yr ADN.

Yn ail, cystadleuaeth Magnox. Eglurodd bod cwmnïau ymgeisio'n cystadlu ar hyn o bryd am gcontract y Rhiant Sefydliad, a fyddai'n denu pobl newydd a ffyrdd newydd o feddwl i Magnox. Byddai Cwmnïau Trwydded Safle Magnox yn parhau fel ag y maent yn bennaf. Cyhoeddir enw'r ymgeisydd a ffafrir ddiwedd mis Mawrth 2014. Ar ôl hynny, bydd cyfnod o ddiwydrwydd dyladwy, lle bydd cyfle i ddatrys unrhyw broblemau cyn i'r rhiant gorff ddod i rym yn swyddogol ym mis Medi 2014. Eglurodd hefyd bod yr ADN wedi gwneud trefniadau i sicrhau bod Cadeiryddion y Grwpiau Rhanddeiliaid Safle yn cael gwybod am y canlyniad cyn gwneud cyhoeddiad cyhoeddus.

Y trydydd mater pwysig yw rheoli gwastraff ymbelydrol yn ddiogel. Mae'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd wedi cynnal ymgynghoriad i weld a oes posib iddynt wella'r broses o ymgynghoriadau. Mae'r cysyniad yn debyg iawn i raddau helaeth – canfod ardal sydd â diddordeb ac edrych ar ddaearreg cyn mynd ymlaen at gamau manwl pellach. Eglurodd bod gwahanol rannau o'r byd yn delio'n wahanol â'r mater hwn, ond mai'r nod yn y wlad hon yw dod o hyd i ardal i ddechrau ac yna cynnal unrhyw astudiaethau daearegol.

Y pedwerydd pwynt oedd y rownd wariant. Eglurodd bod yr ADN wedi gorfod cyflwyno eu hachos i'r Llywodraeth am gyllid, sy'n golygu bod rhaid iddynt gystadlu am gyllid yn erbyn adrannau eraill, fel yr adrannau Addysg a Thrafnidiaeth. Pwysleisiodd mai dyma pam eu bod mor falch o'r incwm oedd yn cael ei greu gan Wylfa. Derbynnir oddeutu £1 biliwn y flwyddyn gan berfformiad masnachol, sy'n creu achos cryfach wrth ofyn i'r Llywodraeth am gyllid. Roedd stad yr ADN yn parhau i gefnogi busnesau bach a chanolig a byddai'n cynyddu ei gwariant cyffredinol gyda hwy i 20% yn 2014/2015.

Mewn perthynas â materion Economaidd-Gymdeithasol, eglurodd ei fod yn gorfod cyflwyno ei achos yn yr un ffordd ag y mae'r Cadeirydd yn cyflwyno achos dros Ynys Môn. Ar nodyn cadarnhaol, cyhoeddodd y penderfyniad i gymeradwyo cyllid yr wythnos ddiwethaf ar gyfer Academi Hyfforddi Cymunedau yn Gyntaf Môn.

Cwestiynau

Dywedodd y Cynghorydd Richard Jones bod hyn yn bwysig i'r ynys ond gofynnodd am ogledd Ynys Môn, ac ardaloedd fel Cemaes, Amlwch a Llanfechell. Awgrymodd Jon Phillips mai'r opsiwn gorau fyddai cyflwyno'r achos gyda phobl fel y Cadeirydd a John Idris Jones. Pobl yr ynys sy'n gyfrifol am gyflwyno eu hachos a chyflwyno eu cynnig i'r Porthol Economaidd-Gymdeithasol ar gyfer ei ystyried.

Holodd y Cadeirydd faint oedd yr Academi newydd wedi'i dderbyn ac atebodd Jon Phillips drwy ddweud bod grant o £140,000 wedi'i gytuno, ond bod y prosiect cyfan yn debygol o fod yn werth tua £350,000.

Holodd y Cadeirydd faint sydd yn y gronfa i gyd, ac atebodd Jon Phillips bod tua £20 miliwn yn y gronfa, felly pan mae prosiectau perthnasol i ymchwil a datblygu ac ati'n dod i'r amlwg, mae cyllid ar gael. Dywedodd y caech chi ddau neu dri o brosiectau mawr gwerth eu cefnogi, ac mai'r nod yw creu cronfa fwy sy'n barod ac ar gael pan mae prosiectau o'r fath yn codi.

Ar ôl darllen y diweddariad, dywedodd Jac Jones mai'r argraff yr oedd ef yn ei gael oedd nad oedd y grŵp wedi ymateb i ymgynghoriad yr ADN ar y Cynllun Busnes drafft, a oedd yn dod i ben y diwrnod canlynol. Atebodd y Cadeirydd drwy ddweud ei fod wedi darparu ymateb.

Aeth Jac Jones ymlaen i nodi bod 'Cyfleuster storio interim gweithredol' wedi'i grybwyll yng Nghynllun Busnes Drafft yr ADN a'i fod yn chwilfrydig ynghylch ystyr hyn. Eglurodd y Cadeirydd bod lle ar gyfer storfa dros dro a'i bod yn weithredol. Eglurodd Mr Mark Thornton ymhellach bod darpariaeth ar gyfer storfa Gwastraff Lefel Ganolraddol ar gyfer gwastraff o'r fath wedi'i becynnu, ond nid yw'n golygu y bydd gan bob safle un. O ran cysondeb serch hynny, mae gan bob safle storfa yn y cynllun. Ychwanegodd Stuart Law bod cais wedi'i wneud am i bob safle gael un. Ar hyn o bryd mae'r ADN yn penderfynu ar yr opsiynau strategol ar gyfer y safleoedd hynny yn Lloegr. Mae gan Wylfa storfa Gwastraff Lefel Ganolraddol ar hyn o bryd ar gyfer gwastraff o'r fath heb ei becynnu ac ar ryw adeg byddai angen dod o hyd i le ar gyfer gwastraff wedi'i becynnu.

Roedd y Cynghorydd Gareth Winston Roberts yn dymuno cael gwybod a fyddai hwn ar gyfer gwastraff Wylfa yn unig, a'r ateb i hynny oedd byddai.

Dywedodd y Cynghorydd Ken Hughes bod y gefnogaeth i sgiliau a chyflogaeth i'w chroesawu yn sicr, a bod y cynnydd i 20% yn 2014/2015 yn rhywbeth i fod yn falch ohono.

Dywedodd y Cynghorydd Gareth Winston Roberts ei fod wedi gofyn sawl gwaith yn y gorffennol beth sy'n cael ei wneud i gefnogi busnesau bach i ddysgu iddynt sut mae tendro am brosiectau'r ADN a Horizon, a gofynnodd a oedd unrhyw beth yn cael ei wneud.

Ymatebodd Jon Phillips drwy ddweud mai cyfrifoldeb y cwmnïau trwydded safle yw hyn. Dywedodd nad oeddent hwy'n gallu darparu hyfforddiant, ond cyfeiriodd at ddigwyddiad y gadwyn gyflenwi yr oedd yr ADN wedi'i gynnal ym Manceinion yn ddiweddar gyda mwy na 600 o gwmnïau'n bresennol. Yn y digwyddiad hwn, trafodwyd sefydlu system fentora ond eto cyfrifoldeb y cwmnïau trwydded safle fyddai hyn. Fodd bynnag, mae gan y safle gyfrifoldeb ac mae safleoedd fel Sellafield wedi cymryd rhan ar lefel ranbarthol. Tynnodd Stuart Law sylw at ddigwyddiadau ymgysylltu yn y gorffennol i ddod â chyflenwyr at ei gilydd. Atgoffodd Jon Phillips y cyfarfod bod gweithgor y gadwyn gyflenwi'n gweithredu i ddod â phobl at ei gilydd.

Mynegodd Tom Conway pa mor bwysig yw iechyd a diogelwch a bod llawer o gwmnïau'n methu yn y cam tendro oherwydd hyn. Mae'r prosesau tendro a manyleb yn briodol ond nid oes gan gwmnïau bach achrediad iechyd a diogelwch ac mae'n rhaid iddynt gael help i gael yr achrediad yma, sy'n broses ddud sy'n cymryd llawer o amser. Mae cwmnïau mwy yn llwyddo tra bo cwmnïau llai ar eu colled.

Atebodd Stuart Law drwy ddweud eu bod yn mynd at gwmnïau mawr wrth edrych ar contract ar raddfa fawr, ond mae'r cwmnïau hyn yn is-gontractio, ac nid oes raid i'r cwmnïau llai y mae'r gwaith yn cael ei is-gontractio iddynt wynebu'r broses dendro lym ac achrediad diogelwch llym, gan fod y prif gwmni wedi bod yn gyfrifol am, hyn.

Dyweddodd y Cynghorydd William Hughes ei fod ar fin mynegi'r un pwynt â Tom Conway – mae llawer o gwmnïau bach yn bodoli sydd angen cefnogaeth a dylent gael y cyfle.

7. Diweddariad y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear

Roedd adroddiad wedi cael ei gynnwys yn y pecyn cyn y cyfarfod ac nid oedd unrhyw gwestiynau.

8. Diweddariad Is-grŵp Gwastraff Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa

Nododd y Cadeirydd ei fod yn eithaf ymwybodol nad oedd cyfarfod o'r is-grŵp Gwastraff wedi'i gynnal yn ddiweddar. Roedd cyfarfod i gael ei drefnu yn ystod y mis nesaf.

Rhoddodd Mr M Thornton ddiweddariad ar ran yr Is-grŵp Gwastraff. Ailadroddodd yr hyn yr oedd wedi'i ddweud yn y cyfarfod blaenorol am y bygythiad i'r llosgydd ar y safle oherwydd newid mewn polisi gan Cyfoeth Naturiol Cymru, a oedd yn bwriadu lleihau'r cyfyngiadau allyriadau ar gyfer y llosgydd.

Roedd penderfyniad wedi'i wneud mai'r opsiwn gorau fyddai cau'r llosgydd oherwydd y cyfyngiadau newydd a ddaeth i rym ar 6 Ionawr 2014. Cyfeiriodd hefyd at arolygiad o dan amodau trwydded safle 32 a 34 a'r Adolygiad Diogelwch Cyfnodol a gyflwynwyd yn ddiweddar i'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear, a bod y cyfleusterau gwastraff presennol yn cael eu gwella'n sylfaenol ac, yn ychwanegol, roedd cynlluniau'n cael eu gwneud ar gyfer cyfleusterau newydd. Byddai'r rhain yn cael eu defnyddio'n helaeth wrth wneud y gwaith gwagio tanwydd a'r datgomisiynu.

Er hynny, roeddent wedi gwneud defnydd da o'r llosgydd, gyda 169 o ddrymiau o wastraff lefel isel wedi'u llosgi. Byddai'r gwaith llosgi'n digwydd ar gyfleuster oddi ar y safle yn awr.

9. Diweddariad y Cynllun Economaidd-Gymdeithasol

Roedd Michelle Humphreys yn falch iawn o gael nodi bod 23 sefydliad wedi cael cyllid ers y cyfarfod diwethaf ym mis Medi. Roedd hefyd yn falch o allu rhannu'r newyddion am yr Academi yng Nghaergybi, a oedd yn rhan o gais mwy. Roeddent yn disgwyl newyddion yn awr ac yn gobeithio y byddai'r grant hwn yn helpu i ryddhau rhagor o gyllid fel rhan o Fframwaith Lleodd Llewyrchus Llawn Addewid Llywodraeth Cymru.

Mae 36 o geisiadau wedi cael eu cymeradwyo ar gyfer Wylfa yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, yn amrywio o gitiau pêl droed a pharciau chwaraeon i oleuadau Nadolig a Chanolfan Dreftadaeth.

Crybwyllodd hefyd bod canllawiau cyllido newydd ar gael yn awr ar y wefan a bod copïau ar gael i'w cadw ar ôl y cyfarfod.

10. Adroddiad y Pwyllgor Ymgynghori Cynllunio Argyfwng

Nid oedd unrhyw un yn bresennol i roi'r adroddiad. Dywedodd Stuart Law nad oedd yn ymwybodol o unrhyw newidiadau ac y byddai cynrychiolydd ar gael yn y cyfarfod nesaf.

11. Dyddiad cyfarfodydd y dyfodol yn 2014

Dywedodd y Cadeirydd eu bod yn gobeithio bod yn hyblyg gyda'r dyddiadau ar hyn o bryd, gyda'r cyfarfodydd nesaf yn debygol o gael eu cynnal ym misoedd Mai a Medi.

12. Fforwm Agored a Sesiwn Holi ac Ateb

Holodd y Cynghorydd Jac Jones am y broses ethol a chytunwyd y byddent yn ei thrafod yn y cyfarfod nesaf.

Holodd Tom Conway a fyddai'n bosib cael diweddariad ar ddyfodol adeilad y Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol, gan ofyn beth oedd y cynigion ac a oedd ymgynghoriad wedi'i gynnal. Nododd S Law bod trafodaethau'n cael eu cynnal ynghylch yr adeiladau sydd yn llwybr y datblygiadau newydd. Byddai cyfarfod yn cael ei gynnal nos Lun y 27^{ain} yn y Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol ar gyfer aelodau'r pwyllgor yn unig.

O ran clwb newydd, holodd Tom Conway a fyddai'r gronfa Economaidd-Gymdeithasol yn fodlon ystyried darparu cyllid ar gyfer adeilad newydd. Atebodd Jon Phillips drwy ddweud nad oedd yn gallu rhoi ateb uniongyrchol ond y byddai'n bosib dilyn y llwybrau priodol a chyflwyno cais am gyllid economaidd-gymdeithasol.

Dywedodd Roger Dobson, fel aelod o'r cyhoedd, bod y cyhoedd yn teimlo'n ddiogel oherwydd bod cerbyd goruchwyllo gyriant pedair olwyn y Gwnstabiliaeth Niwclear Sifil yn mynd o amgylch yr ardal leol i'r safle ddydd a nos. Mae Pentir y Gorllewin yng Nghemlyn yn ardal boblogaidd sy'n denu pobl sy'n mynd â'u cŵn am dro a gwylwyr adar. Fodd bynnag, mae'r llwybr troed yn fwdlyd iawn oherwydd bod cerbyd gyriant pedair olwyn yn ei groesi. Dywedodd y Cadeirydd nad oedd y gwnstabiliaeth niwclear yn rhan o gylch gwaith y grŵp, ond sicrhodd Roger Dobson bod ei sylw wedi cael ei nodi ac y byddai'n cael ei anfon ymlaen gan S Law.

13. Unrhyw Fater Arall

Nid oedd unrhyw faterion eraill.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.05 pm.